At: Aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol

Dyddiad: 22 Gorffennaf 2015

Rhif Union: 01824712575

ebost: dcc_admin@denbighshire.gov.uk

Annwyl Gynghorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **PWYLLGOR LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL, DYDD LLUN, 27 GORFFENNAF 2015** am **9.30 am** yn **YSTAFELL BWYLLGORA 1A, NEUADD Y SIR, RHUTHUN**.

Yn gywir iawn

G Williams
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd

**AGENDA**

**RHAN 1 – GWAHODDIR Y WASG A'R CYHOEDD I FOD YN BRESENNOL AR GYFER Y RHAN HON O'R CYFARFOD**

**1 YMDDIHEURIADAU**

**2 DATGANIADAU O GYSYLLTIAD**

Dylai'r Aelodau ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu ag unrhyw fater a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

**3 MATERION BRYS**

Rhybudd o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

**4 COFNODION** (Tudalennau 5 - 14)

Derbyn cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol a gynhaliwyd ar 20 Mai 2015 (copi'n amgaeedig).

**5 PROSES CYLLIDEB 2015/16** (Tudalennau 15 - 20)

Ystyried adroddiad gan y Pen Swyddog Cyllid sy'n rhoi diweddariad ar y broses i gyflawni'r gyllideb refeniw ar gyfer 2016/17 (copi'n amgaeedig).

**6 ADRODDIAD GWELLA BLYNYDDOL SAC 2014/15** (Tudalennau 21 - 70)

Derbyn adroddiad gan y Swyddog Perfformiad a Chynllunio Strategol, sy'n crynhoi'r canfyddiadau allweddol o Adroddiad Gwella Blynyddol SAC ynghylch trefniadau cynllunio ac adrodd Sir Ddinbych er mwyn bodloni dyletswyddau gwelliant parhaus statudol (copi'n amgaeedig).

**7 ADRODDIAD SAC – GWYDNWCH ARIANNOL CYNGHORAU CYMRU** (Tudalennau 71 - 130)

Ystyried adroddiad gan y Pen Swyddog Cyllid (CFO), ar astudiaeth genedlaethol Swyddfa Archwilio Cymru o gadernid trefniadau rheoli a chynllunio i gefnogi gwydnwch ariannol ym mhob Cyngor, gan ganolbwyntio ar sut y mae Cynghorau yn cynllunio ac yn cyflawni eu hymrwymiadau cyllideb (copi'n amgaeedig).

**8 ADRODDIAD YR ARCHWILYDD CYFFREDINOL - RHEOLI YMADAWIADAU CYNNAR** (Tudalennau 131 - 192)

Ystyried adroddiad gan y Pen Swyddog Cyllid (CFO), ar astudiaeth genedlaethol Swyddfa Archwilio Cymru yn archwilio a all cyrff cyhoeddus Cymru ddangos eu bod yn sicrhau gwerth am arian o ddefnyddio ymadawiadau cynnar i reoll neu leihau costau gweithlu (copi'n amgaeedig).

**9 CYFANSODDIAD MODEL NEWYDD** (Tudalennau 193 - 214)

Ystyried adroddiad gan Bennaeth y Gyfraith, Adnoddau Dynol a Gwasanaethau Democrataidd (copi'n amgaeedig) ar Gyfansoddiad Model newydd y Cyngor.

**10 ADRODDIAD COMISIYNWYR GWYLIADWRIAETH A RIPA** (Tudalennau 215 - 230)

Ystyried adroddiad gan Bennaeth y Gyfraith, Adnoddau Dynol a Gwasanaethau Democrataidd, sy'n darparu'r adroddiad arolygu diweddar yn dilyn yr ymweliad gan Swyddfa Comisiynwyr Gwyliadwriaeth (copi'n amgaeedig).

**11 SIARTER ARCHWILIO MEWNOL** (Tudalennau 231 - 242)

Ystyried adroddiad gan y Pennaeth Archwilio Mewnol, a gyflwynodd siarter archwilio mewnol ddiwygiedig i'w chymeradwyo (copi'n amgaeedig).

## 12 ADBORTH O'R CYFARFOD CYDRADDOLDEB CORFFORAETHOL

Derbyn adroddiad ar lafar gan y Cynghorydd M.L. Holland ynglŷn â’r cyfarfod Cydraddoldeb Corfforaethol.

## 13 RHAGLEN WAITH Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL (Tudalennau 243 - 244)

Ystyried Rhaglen Gwaith i’r Dyfodol y Pwyllgor (copi’n amgaeedig).

## RHAN 2 – EITEMAU CYFRINACHOL

Argymhellir, yn unol ag Adran 100A (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, y dylid gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o’r cyfarfod yn ystod trafod y mater(ion) canlynol oherwydd y tebygolrwydd y caiff gwybodaeth eithriedig fel y diffinnir ym Mharagraff “[Nodwch Rif]” Rhan 4 o Atodlen 12A y Ddeddf, ei datgelu.

## 14 ADOLYGIAD YMARFER PLANT (Tudalennau 245 - 264)

Ystyried adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd, sy'n rhoi adroddiad o’r Adolygiad Ymarfer Plant a gynhaliwyd gan y Bwrdd Rhanbarthol Diogelu Plant (copi’n amgaeedig).

## 15 DIWEDDARIAD CONTRACT PFI (Tudalennau 265 - 276)

Ystyried adroddiad gan y Pen Swyddog Cyllid, sy'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ar y prosiect i derfynu cytundeb PFI Neuadd y Sir y Cyngor (copi’n amgaeedig).

**AELODAETH**

**Y Cynghorwyr**

Ann Davies
Stuart Davies
Peter Duffy
Jason McLellan
Barry Mellor

**Aelod Lleyg**

Paul Whitham

**COPIAU I’R:**

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth
Y Wasg a’r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned